Annwyl Gwsmeriaid

**Swyddfa Bost® Ystalyfera**
**50 Heol y Wern, Ystalyfera, Abertawe, SA9 2LY**

**Penderfyniad yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol**

Rwy'n ysgrifennu i gadarnhau ein bod, wedi cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol ac adolygiad, wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynllun i symud y Swyddfa Bost uchod i Siop Ystalyfera yn 47-49 Commercial Street, Ystalyfera, Abertawe, SA9 2HS, lle caiff ei rhedeg gan bartner manwerth.

Hoffwn ddiolch i bawb a neilltuodd amser i roi sylwadau a gwybodaeth inni. Bu'r holl adborth a gawsom yn help i ni ddeall barn cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr yn well a chafodd ei ystyried, ynghyd â'r holl ffactorau perthnasol eraill, wrth i ni wneud ein penderfyniad. Cafodd crynodeb o'r adborth ei amgáu, ynghyd â thaflen wybodaeth sy'n rhoi manylion pellach am y gangen newydd.

Ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r ymatebion a gafwyd, rydym yn ffyddiog o hyd y bydd cynllun a lleoliad y gangen newydd yn dal i ateb gofynion y cwsmeriaid ac yn darparu gwasanaeth rhagorol, yn ogystal â diogelu hyfywedd hirdymor gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y gymuned leol

Bydd y gangen bresennol yn cau am 17:30 ddydd Gwener 30 Tachwedd 2018, a bydd y gangen newydd yn agor yn Siop Ystalyfera, 47-49 Commercial Street am 13:00 ddydd Llun 03 Rhagfyr 2018. Os bydd rhaid newid y dyddiadau hyn, am resymau na ellir eu rhagweld ar hyn o bryd, bydd posteri'n cael eu gosod yn y gangen er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

Yn ystod y cyfnod trosglwyddo, gall cwsmeriaid ddefnyddio unrhyw wasanaeth Swyddfa'r Post arall sy'n gyfleus. Isod, fe welwch fanylion am gangen Swyddfa'r Post gyfagos:

- Swyddfa Bost Pontardawe, 18 Y Stryd Fawr, Pontardawe, Abertawe, SA8 4HU

Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd yng Nghanolfan Ymgynghori Swyddfa'r Post yn: postofficeviews.co.uk

Yr eiddoch yn gywir

*Annete Thomas*

**Annete Thomas**
**Rheolwraig Ardal dros Newidiadau i'r Rhwydwaith**

How to contact us:

postofficeviews.co.uk
comments@postoffice.co.uk
FREEPOST Your Comments

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ,
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa'r Post Cyfyngedig

PostOffice.co.uk

**Atodiad A**

**Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol**

**Dechreuodd yr ymgynghoriad** 18/07/2018
**Daeth yr ymgynghoriad i ben** 05/09/2018

**Ymatebion yr ymgynghoriad cyhoeddus**

- 100 o ymatebion gan gwsmeriaid a chynrychiolwyr lleol

**Y prif faterion a godwyd**

- Y pellter a'r llwybr i'r gangen newydd
- Mynediad i mewn i'r siop newydd
- Lle y tu mewn i'r adeilad newydd
- Parcio ger yr adeilad newydd
- Staffio a'r gwasanaeth i gwsmeriaid

**Ymateb i'r materion a godwyd**

**Y pellter a'r llwybr**
Mae'r adeilad newydd arfaethedig oddeutu 350 metr o'r safle presennol, ar hyd tir amrywiol ei natur. Gydag unrhyw symud, mae'n anorfod y bydd yn haws i rai cwsmeriaid gyrraedd y lleoliad newydd; yn anffodus, bydd eraill yn gorfod teithio ymhellach. I gwsmeriaid yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, mae yna fysiau bob 25 i 30 munud rhwng y ddau safle.

**Mynediad**
Rydym yn sylweddoli fod y Swyddfa Bost yn chwarae rhan bwysig ym mywydau cwsmeriaid, ac rydym am wneud ein gwasanaethau mor hygyrch â phosibl. Bydd newidiadau'n cael eu gwneud wrth y fynedfa er mwyn darparu ramp parhaol a drysau awtomatig llydan a fydd yn cydymffurfio â'n safonau.

**Lle y tu mewn i'r siop**
Y tu mewn, bydd y gangen newydd yn bodloni gofynion Swyddfa'r Post, gan wneud yn siŵr fod digon o le i'r Swyddfa Bost leol ffasiwn-newydd weithredu ochr yn ochr â'r siop. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r gweithredydd newydd wrth ddylunio tu mewn yr adeilad i wneud yn siŵr fod llwybr clir i mewn iddo. Bydd y llwybrau a'r man lle bydd cwsmeriaid yn aros eu tro yn cael eu cadw heb rwystrau a bydd digon o le i gwsmeriaid symud o gwmpas y siop a chyrchu gwasanaethau'r Swyddfa Bost heb anhawster.

**Parcio**
Mae'n deg dweud fod parcio yn broblem gyffredinol mewn sawl lleoliad ar draws y DG. Rwy'n siŵr y byddwch yn deall fod y lle sydd ar gael i barcio y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Swyddfa'r Post Cyfyngedig. Fodd bynnag, rwyf wedi ymchwilio ymhellach i'r sefyllfa barcio a gallaf gadarnhau fod modd parcio am ddim oddi ar y ffordd ger yr adeilad newydd. Er mwyn cynorthwyo cwsmeriaid, bydd y gweithredydd newydd yn ymgysylltu a'r awdurdodau priodol i weld a ellir rhoi sylw penodol i barcio ar gyfer pobl anabl a gorfodi cyfyngiadau parcio i'w gwneud yn haws i gerddwyr.

**Staffio a'r gwasanaeth i gwsmeriaid**
Bydd staff yn cael hyfforddiant llawn a bydd digon o staff ar gael i ateb gofynion y cwsmeriaid yn ystod y cyfnodau prysuraf. Er nad oes unrhyw siaradwyr Cymraeg yn gweithio yn y lleoliad newydd ar hyn o bryd, mae'r gweithredydd wedi cytuno i fynd i'r afael â hyn. Byddwn hefyd yn cydweithio'n glos â'r gweithredydd newydd i wneud yn siŵr fod yna ddigon o breifatrwydd wrth fan gwasanaeth Swyddfa'r Post. Er enghraifft, rydym yn trafod materion fel cynllun y ciw a gofyn i gwsmeriaid aros i ffwrdd o'r cownter wrth aros eu tro am wasanaeth. O ran diogelwch, hefyd – yr un modd ag mewn unrhyw gangen arall yn ein rhwydwaith - byddai canllawiau a chamau diogelwch ar waith er mwyn diogelu cwsmeriaid, staff a'r arian a stoc sydd dan ofal y gweithredydd.

Bydd y Swyddfa Bost leol ffasiwn newydd yn cael ei rhedeg o fan gwasanaeth Swyddfa'r Post ar gownter y siop, lle bydd dewis eang o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post, gan gynnwys casglu eitemau na fu modd eu dosbarthu, ar gael i gwsmeriaid ochr yn ochr ag eitemau'r siop. Bydd y newid hefyd yn golygu y bydd trigolion lleol yn elwa ar oriau agor llawer hirach, gan gynnwys prynhawniau Sadwrn, dydd Sul ac oriau agor estynedig drwy gydol yr wythnos. Felly, bydd cwsmeriaid yn gallu defnyddio ein gwasanaethau saith diwrnod yr wythnos ac ar adegau a fydd yn fwy cyfleus iddyn nhw.

**Atodiad B**

<table>
<tr><th colspan="2">Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Ystalyfera</th></tr>
<tr><td>Cyfeiriad</td><td>Siop Ystalyfera<br>47-49 Commercial Street<br>Ystalyfera<br>Abertawe<br>SA9 2HS</td></tr>
<tr><td>Oriau agor</td><td>Llun 07:00 – 22:00<br>Maw 07:00 – 22:00<br>Mer 07:00 – 22:00<br>Iau 07:00 – 22:00<br>Gwen 07:00 – 23:00<br>Sad 07:00 – 23:00<br>Sul 07:00 – 23:00</td></tr>
<tr><td>Pellter</td><td>350 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir amrywiol ei natur.</td></tr>
<tr><td>Cynhyrchion a Gwasanaethau</td><td>Bydd y rhan fwyaf o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd.</td></tr>
<tr><td>Mannau gwasanaeth</td><td>Bydd man gwasanaeth Swyddfa'r Post wrth y gownter y siop a bydd ar gael pan fydd y siop ar agor.</td></tr>
<tr><td>Hygyrchedd</td><td>Mynediad a chyfleusterau<br>Bydd gan yr adeilad newydd ramp a drws llydan awtomatig.  Y tu mewn, bydd yna ddolen glyw a lle i gadair olwyn.<br><br>Parcio<br>Mae yna le i barcio gerllaw.</td></tr>
<tr><td>Y Siop</td><td>Siop Gyfleustra</td></tr>
<tr><td>Dyddiad y symud</td><td>13:00 dydd Llun 03 Rhagfyr 2018</td></tr>
</table>

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu  03457 22 33 55 (ffôn testun).**

| **Swyddfa'r Post® Ystalyfera gwasanaethau ar gael** | |
|---|---|
| **I gael gwybodaeth ynghylch cynhyrchion sydd ar gael ffoniwch 03452 223344 neu os ydych am wybod beth yw gwerth uchaf trafodion siaradwch â'r sawl sydd y pen arall i'r ffôn. Hefyd, gall cwsmeriaid siopa ar-lein yn www.postoffice.co.uk** | |
| | **Cangen newydd** |
| **Post** | |
| Post Dosbarth Cyntaf & Ail Ddosbarth | ✓ |
| Stampiau, llyfrau stamp (Dosbarth 1af 6 & 12 yn unig, 2il Ddosbarth 12 yn unig) | ✓ |
| Stampiau arbennig (argraffiad Nadolig yn unig) & labelau postio | ✓ |
| Royal Mail Signed For™ | ✓ |
| Royal Mail Special Delivery™ | ✓ |
| Dychweliadau Siopa o Gartref | ✓ |
| Parseli mewndirol bach a chymedrol | ✓ |
| Parseli Cyflym a Chytundeb | ✓ |
| Post Y Lluoedd Prydeinig (BFPO) | ✓ |
| Llythyrau a chardiau post rhyngwladol (yn.cynnwys 'Signed For'™ & 'Airsure'™) | ✓ |
| Pecynnau Rhyngwladol hyd at 2kg & phapurau printiedig hyd at 5kg | ✓ |
| Parseli rhyngwladol Parcelforce Worldwide | ✓ |
| Eitemau i'r deillion (mewndirol & rhyngwladol) | ✓ |
| Gwasanaeth Ailgyfeirio'r Post Brenhinol | ✓ |
| Gwasanaeth Casglu Eitemau | ✓ |
| **Gwasanaethau bancio & Throsglwyddo Arian** | |
| Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post | ✓ |
| Bancio personol a busnes: codi arian, adneuon, ymholiadau balans ac adneuo sieciau mewn amlenni (wrth ddefnyddio cerdyn, cod bar neu â llaw). | ✓ |
| Archebion Post | ✓ |
| 'Moneygram'™ | ✓ |
| **Taliadau Bil** | |
| Taliadau bil awtomatig (cerdyn neu fargod) | ✓ |
| Ail-siarsio allweddi | ✓ |
| **Trwyddedi** | |
| Trwyddedi wialen bysgota | ✓ |
| **Teithio** | |
| Arian teithio wedi'i archebu 'mlaen llaw | ✓ |
| Arian teithio Ar Alw | Ewros |
| Cyfeireb Yswiriant Teithio | ✓ |
| Yswiriant Teithio Ar Alw | ✗ |
| | |
| Ail-siarsio ffôn symudol& thalebau E | ✓ |
| Terminal Loteri Genedlaethol | ✓ |
| **Taliad â siec** | ✓ |
| Mae cynhyrchion wedi eu marcio â ✗ar gael yn Swyddfa'r Bost **Pontardawe** 18 y Stryd Fawr, Pontardawe, Abertawe, SA8 4HU | Amseroedd agor:<br>Llun – Gwe 08:00 – 17:30<br>Sad 08:30 – 13:30 |

**Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post**

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

*Byddwn yn* ***Hysbysu*** *– pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:*

- Oriau Agor
- Cau dros dro[1]/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n gysylltiedig â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n priodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

*Bydd yn* ***Ymgysylltu*** *– pan fyddwn yn ceisio adborth am benderfyniad a wnaed ynghylch:*

- Ailagor cangen a gaewyd dros dro mewn lleoliad newydd (os yw cangen wedi bod ar gau am fwy na thri mis)
- Masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol yn ei safle cyfredol

Er y gwnaed y penderfyniad i fwrw ymlaen eisoes, byddwn yn croesawu awgrymiadau ynghylch agweddau penodol ar y newid, megis trefniadau mynediad a'r dyluniad mewnol. Byddwn yn rhoi pedair wythnos o rybudd neu, os yw amgylchiadau esgusodol yn atal hyn, byddwn yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl.

Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn gosod poster yn y gangen ac yn darparu gwybodaeth ar-lein. Byddwn yn cysylltu â chynrychiolwyr etholedig lleol[2], y Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol[3], i roi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau neu drefniadau ynghylch mynediad i'r gangen. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.). Byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymgysylltiad ar-lein ac yn y gangen, gan roi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb i bob un ac unrhyw newidiadau a wnaed i'n cynlluniau gwreiddiol.

*Bydd yn* ***Ymgynghori*** *– pan fyddwn yn chwilio am ymateb i argymhellion cyn gwneud penderfyniad ynghylch:*

- Cau cangen Swyddfa'r Post[4] yn barhaol
- Adleoli cangen Swyddfa'r Post yn barhaol (gan gynnwys masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol i safle newydd)

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros gyfnod o chwe wythnos[5] er mwyn rhoi gwybod i gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol am yr argymhelliad. Bydd yr wybodaeth hon ar gael hefyd ar-lein ac ar gyfer cangen â Rheolaeth Uniongyrchol cyflwynir datganiad newyddion i'r cyfryngau lleol. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.).

Bydd yr ymgynghoriad yn golygu gofyn cwestiynau penodol pan fyddwn yn dymuno cael adborth ynghylch mynediad i gwasanaethau Swyddfa'r Post a byddwn yn cadarnhau dyddiad y newid os taw'r penderfyniad yw i fwrw ymlaen. Byddwn yn rhoi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ogystal a mynediad i'r gangen newydd a'r tu mewn iddi.

Rydym yn croesawu pob adborth ac mae'r holl ffactorau isod yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniad; disgwylir y gwneir y penderfyniad hwnnw o fewn pedair wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad:

- Mynediad cwsmeriaid i mewn i a'r tu mewn i'r gangen /canghennau newydd neu amgen, gydag ystyriaeth benodol i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed
- Unrhyw faterion cymunedol lleol a allai gael eu heffeithio gan yr argymhelliad neu ddylanwadu arno

Ar ddiwedd y broses ymgynghorol byddwn yn ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad (os yw hynny'n ymarferol) er mwyn cadarnhau ein penderfyniad a rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un. Bydd yr wybodaeth ar gael ar-lein ac yn y gangen (pan fo hynny'n bosibl).

***Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.***

*Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:*

Cysylltwch â ni fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hymateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw weithredu ynghylch y gwŷn).

**postofficeviews. co.uk.**
**comments@postoffice.co.uk**
**FREEPOST Your Comments**
**Ffoniwch: 03452 66 01 15**
**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

[1] Rhoddwn ddiweddariad i gynrychiolwyr etholedig lleol os nad yw statws y gangen sydd ar gau dros dro wedi newid ar ôl 12 mis.

[2] Mae cynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Cynulliad Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf.

[3] Yr elusennau dethol yw Cyngor ar Bopeth, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Anogir y sawl y cyfeirir atynt yn 2 a 3 uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.

[4] Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darpariaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

[5] Os yw'r ymgynghoriad yn cynnwys mwy na phedair wythnos ym mis Gorffennaf yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon neu fwy na phedair wythnos ym mis Awst yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn estyn y cyfnod am un wythnos galendr. Ni fyddwn yn dechrau unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus lleol yn ystod y bythefnos sydd yn cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.